OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1268 (Cy.128)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*6 Mai 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Mai 2008*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e), 17(1), 26(1)(a), a (48)(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 31 Mai 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn y drefn honno o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28) ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.
Mae swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, o ran Cymru a Lloegr a chan weithredu ar y cyd, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol cyfrifol am iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru, ac o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol) bellach yn arferadwy yn Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir ag adran 40(3) o Ddeddf 1999 a throsglwyddwyd hwy wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru (p.32). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran yr Alban i Weinidogion yr Alban gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (1998 p.46) fel y'i darllenir ag adran 40(2) o Ddeddf 1999.

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996

2.—(1) Mae Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**3**) wedi eu diwygio i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru yn unol â pharagraffau (2) i (7).

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 2000/13" yn lle'r geiriau "Commission Directive 2005/26/EC" hyd at y diwedd, rhodder "Commission Directive 2007/68/EC amending Annex IIIa to Directive 2000/13/EC of the European Parliament and of the Council as regards certain food ingredients(**4**);".

(3) Yn rheoliad 13(8)(c)—

(a) hepgorer y geiriau "paragraphs 1 to 11 of"; a

(b) hepgorer y darn sy'n dechrau gyda'r geiriau "other than" ac yn gorffen gyda'r geiriau "that allergenic ingredient".

(4) Yn rheoliad 34B(1)—

(a) yn lle'r geiriau "paragraphs (2) and (3)" rhodder "paragraff (2)"; a

(b) hepgorer y geiriau "paragraphs 1 to 11 of".

(5) Yn rheoliad 34B(2)(b)—

(a) hepgorer y geiriau "subject to paragraph (3) of this regulation,"; a

(b) hepgorer y geiriau "paragraphs 1 to 11 of".

(6) Yn rheoliad 50 (darpariaeth drosiannol), ar ôl paragraff (14) mewnosoder y canlynol—

"(15) In any proceedings for an offence under regulation 44(1)(a) it is a defence to prove that—

(a) the food concerned was sold before 31st May 2009 or marked or labelled before that date; and

(b) the matters constituting the alleged offence would not have constituted an offence under these Regulations if the amendments made by regulation 2 of the Food Labelling (Declaration of Allergens) (Wales) Regulations 2008(**5**) had not been in operation when the food was sold.".

(7) Yn lle cynnwys Atodlen AA1 (cynhwysion alergenig) rhodder cynnwys yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Dirymu

3. Mae'r Rheoliadau neu ddarpariaethau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliad 34B(3) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996 ac Atodlen 2A iddynt;

(b) Yr Atodlen i Reoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2004(**6**);

(c) Rheoliadau Labelu bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005(**7**);

(ch) Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005(**8**);

(d) Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2007(**9**).

(**3**) O.S. 1996/1499, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2007/3379 (Cy.301). Mewnosodwyd rheoliad 34B ac Atodlen AA1 gysylltiedig gan O.S. 2004/3022 (Cy.261). Diwygiwyd rheoliad 34B gan O.S. 2005/2835 (Cy.200); diwygiwyd Atodlen AA1 gan O.S. 2007/3379 (Cy.301). Mewnosodwyd paragraff (13) o reoliad 50 gan O.S. 2005/1309 (W.91), a pharagraff (14) o'r rheoliad hwnnw gan O.S. 2007/3379 (Cy.301).
(**4**) OJ Rhif L310, 28.11.207, t.11.
(**5**) O.S. 2008/1268 (Cy.128).
(**6**) O.S. 2004/3022 (Cy.261).
(**7**) O.S. 2005/2835 (Cy.200).
(**8**) O.S. 2005/3626 (Cy.241).
(**9**) O.S. 2007/3379 (Cy.301).